

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit held
at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 27ain Gorffennaf, 2023 at
2.00 pm

CYNGHORWYR Cynghorydd Sirol A Blackmore, (Cadeirydd)
YN Cynghorydd Sirol Tony Easson, (Is-Gadeirydd)
BRESENNOL:

Cynghorydd Sirol: Ben Callard, Phil Murphy, Peter Strong and
Ann Webb

SWYDDOGION YN BRESENNOL:

Peter Davies	Prif Swyddog, Adnoddau
Jan Furtek	Audit Manager
Wendy Barnard	Swyddog Gwasanaethau Democraidd
Richard Jones	Rheolwr Perfformiad a Dirnadaeth Data
Jonathan Davies	Rheolwr Cyllid Cyfrifeg Canolog
Rachel Freitag	Swyddog Archwilio Cymru

YMDDIHEURIADAU:

Cynghorydd Sirol John Crook, David Jones and Malcolm Lane, and M. Veale

1. Datganiadau o Fuddiant

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

2. Fforwm Aqored i'r Cyhoedd

Nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd yn bresennol.

3. Nodi'r rhestr camau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf

Nodwyd y Rhestr Weithredu o'r cyfarfod blaenorol.

1. Cydweithrediadau a Phartneriaethau Allweddol: Dywedodd y Prif Archwiliwr Mewnol fod yr adroddiad drafft wedi ei gyhoeddi ym mis Mehefin gyda barn o "Sicrwydd Rhesymol". Roedd yr archwiliad yn adolygiad sy'n seiliedig ar risg o bartneriaethau strategol a threfniadau cydweithredu i sicrhau bod pob partneriaeth yn cael ei nodi, ei monitro a'i llywodraethu'n effeithiol. Mae'r adroddiad drafft gyda'r Rheolwr Mewnwelediad Perfformiad a Data a Phennaeth Polisi, Perfformiad a Chraffu i ystyried yr argymhellion a'r camau rheoli. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf.

[YN PARHAU]

2. Capasiti'r Tîm Cyllid: Roedd e-bost gan y Pennaeth Cyllid wedi ei ddsbarthu i Aelodau'r Pwyllgor yn darparu gwybodaeth gefndirol ac yn amlinellu cynllun ar

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 27ain Gorffennaf, 2023 at 2.00 pm

gyfer datrysiad. Mae'r cyllidebau strwythur staffio ar gyfer 35.41 swydd Cyfwerth ag Amser Llawn ac mae 32.6 o'r rheiny mewn swydd ar hyn o bryd (cyfradd swyddi gwag o 7.9%). Bu swydd y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol yn wag ers Gwanwyn 2022 ac mae trefniadau dros dro wedi bod ar waith ers hynny, ond mae rhywfaint o effaith ar lwyth gwaith. Mae ardaloedd risg uchel wedi'u blaenoriaethu, yn bennaf i gynnal cynaliadwyedd ariannol yr awdurdod ac i sicrhau bod gwybodaeth ariannol amserol, gywir ar gael.

Y bwriad yw datrys y mater o fewn 8 i 12 wythnos. Wrth wneud hynny, mae meysydd allweddol i'w cryfhau yn cynnwys gweinyddu grantiau (gan fod swm a gwerth grantiau penodol wedi cynyddu), cymorth cynllun cyfalaf, gwaith prosiect a lleihau'r defnydd o amser uwch swyddogion cyllid er mwyn canolbwyntio ar ffocws ariannol strategol o ystyried y cynnwrf a'r her eleni a'r rhagolygon dros y tymor canolog.

Llongyfarchwyd y Tîm ar gyflwyno dyddiad y datganiad drafft o gyfrifon.

Gofynnwyd am ddiweddariad llafar yn y cyfarfod nesaf ar y cynnydd o ran llenwi'r swyddi gwag hyn a gwybodaeth bellach ynghylch pa eitemau oedd yn cael eu dad-flaenoriaethu.

[YN PARHAU]

3. Strategaeth Pobl a'r Cynllun Rheoli Asedau: I'w adrodd i'r cyfarfod ym mis Tachwedd.

[YN PARHAU]

4. Menter Gymdeithasol (llithriad o bron i ddegawd ledled Cymru): Dosbarthwyd ymateb ysgrifenedig i'r cwestiwn i'r Pwyllgor ddoe. Y camau i aros ar agor i ganiatáu cyfle i bob Aelod ddarllen yr ymateb.

[WEDI CAU]

5. System Pwysoli'r Adroddiad Cwynion Blyneddol: Dylid ystyried y mater hwn cyn cyflwyno'r adroddiad cwynion blyneddol nesaf.

[YN PARHAU]

6. Cofrestr Risg Strategol: Disgwylir i'r adroddiad gael ei gyhoeddi ym mis Tachwedd 2023.

[YN PARHAU]

7. Archwiliad o'r Gwasanaeth Adnoddau a Rennir (CBS Torfaen): Gan nodi bod y Gwasanaeth Adnoddau a Rennir yn debygol o fod cydweithrediad mwyaf arwyddocaol yr awdurdod, cytunwyd bod y Pwyllgor yn ystyried y camau hyn fel rhan o'i drafodaethau ar yr adroddiad drafft ar gydweithredu allweddol a phartneriaethau (fel 1. uchod), pan gânt eu cyflwyno.

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 27ain Gorffennaf, 2023 at 2.00 pm

[YN PARHAU]

8. Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth, Diogelu Data a Mynediad Gwrthrych Data:

- i) Gwybodaeth am gyfraddau cwblhau hyfforddiant gorfodol i'w hanfon at y Pwyllgor y tu allan i'r cyfarfod
- ii) Gwybodaeth am drefniadau llywodraethu ar gyfer y polisiâu ar gyfer y meysydd hyn i'w hanfon at y Pwyllgor y tu allan i'r cyfarfod
- iii) Ystyried polisiâu rheoli risg corfforaethol (sy'n ymestyn y tu hwnt i TG a diogelu data) y dylai'r Pwyllgor eu hadolygu o bryd i'w gilydd a'u hargymell i'w cymeradwyo ar draws yr awdurdod: Y bwriad yw adrodd yn ôl ym mis Hydref unwaith y bydd y Gweithgor Llywodraethu wedi cwrdd.

[YN PARHAU]

9. Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol - Hen Orsaf Tyndyrn: Rhoddodd y Prif Archwiliwr Mewnol adroddiad llafar pan ystyriwyd y mater hwn yn ddiweddarach yn y cyfarfod heddiw.

[WEDI CAU]

10. Cynllun Gweithredol Drafft

Eglurodd y Dirprwy Brif Weithredwr fod 5.5 swydd Cyfwerth ag Amser Llawn yn strwythur y Tîm Archwilio Mewnol. Bydd y recriwtio sydd ar y gweill ar gyfer swydd yr Uwch Archwilydd yn cynyddu staff i 5 swydd Cyfwerth ag Amser Llawn. O ran y rolau uwch, mae'r Rheolwr Archwilio yn gweithredu fel y Prif Archwiliwr Mewnol, ac mae swydd 0.5 Cyfwerth ag Amser Llawn heb ei lenwi. Bydd y sefyllfa hon yn cael ei rheoli dros dro a bydd yn darparu arbedion swyddi gwag. Mae hyblygrwydd, yn amodol ar y gyllideb sydd ar gael, i dynnu ar Gonsortia Archwilio Mewnol neu wasanaethau eraill i dalu am unrhyw ddiffyg yn y cyfamser tra bod yr opsiwn consortiwm rhanbarthol yn cael ei archwilio. Mynegodd y Cadeirydd bryder ynghylch y posibilrwydd o ddiffyg materol ar hyn o bryd. Rhoddodd y Dirprwy Brif Weithredwr sicrwydd y byddai arian yn cael ei sicrhau o'r gyllideb ehangach i ddychwelyd i sefyllfa foddhaol gan gytuno bod sefydlogrwydd yn y Tîm yn flaenoriaeth. Gofynnwyd am ragor o wybodaeth yn y cyfarfod nesaf.

[YN PARHAU]

4. Adroddiad Alldro'r Trysorlys 2022/23

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid Adroddiad Alldro'r Trysorlys 2022/23. Gwahoddwyd yr aelodau i ofyn cwestiynau:

- Gofynnodd Aelod, os yn bosibl, a ellid gwneud yr adroddiad yn haws ei ddarllen yn y dyfodol.

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 27ain Gorffennaf, 2023 at 2.00 pm

- Gofynnodd yr Aelod am Broadway Partners Ltd. a oedd wedi mynd i ddwylo'r gweinyddwyr yn ddiweddar a holodd a oedd unrhyw oblygiadau/risgiau yn deillio o hyn. Eglurodd y Pennaeth Cyllid fod y Cyngor wedi ymrwymo i gerbyd pwrpas arbennig drwy fenthyciad masnachol yn ystod Gwanwyn 2020 gyda Broadway Partners. Tynnwyd i lawr dau daliad cyfran o £1.15 miliwn. Mae ad-daliadau ar y benthyciad wedi'u gwneud yn fisol nes y cyhoeddwyd bod gweinyddwyr wedi'u penodi ym mis Ebrill 2023, pan ddaeth ad-daliadau benthyciad i ben a'u bod bellach yn hwyr. Penderfynodd y Pwyllgor Buddsoddi ohirio ad-daliadau'r benthyciad er mwyn caniatáu i'r cerbyd pwrpas arbennig aros yn hydal yn y broses weinyddu. Cyfanswm y benthyciad sy'n weddill ar hyn o bryd yw tua £745,000, gyda llog cronedig o £15,000. Mae yna gyfathrebu rheolaidd gyda'r gweinyddwyr. Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr fod y gweinyddwyr mewn proses o geisio diddordeb oddi wrth ddarpar brynwyr.
- Gan gyfeirio at y gofyniad Ariannu Cyfalaf, gofynnodd Aelod pa mor agos yw'r awdurdod i'r nenfwd benthycia. Cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid fod y lefelau benthycia yn fforddiadwy ac yn ddoeth gan nodi bod dangosydd yn strategaeth y trysorlys ar ddechrau'r flwyddyn. Mae hynny, a'r effaith ar y gyllideb refeniw, yn cael ei fonitro'n rheolaidd.
- Wrth fynd i'r afael â chwestiwn ynghylch y golled cyfalaf nas gwiredwyd o £401,000 a chronfeydd cyfunol, cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid y safbwynt gan nodi bod y rheoliadau wedi'u hymestyn gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru am o leiaf dwy flynedd Ariannol, ac mae hynny'n caniatáu i'r golled heb ei gwireddu gael ei dwyn ymlaen ar y fantolen. Os bydd cyfle yn codi, gall yr awdurdod geisio dadwneud y sefyllfa honno dros y tymor canolig. Yn y cyfamser, mae'r enillion yn foddhaol, a chedwir cronfa wrth gefn y trysorlys i dalu am y risg o golled heb ei gwireddu ac adolygir sefyllfa anweddolrwydd y marchnadoedd. Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhawyd bod cronfa risg y trysorlys oddeutu £590,000.
- Mewn ymateb i gwestiwn, nododd y Pennaeth Cyllid fod enillion ar eiddo masnachol a buddsoddi o fewn yr adroddiad (a.10). Mae yna adenillion amrywiol o'r fferm ynni haul a Pharc Hamdden Casnewydd. Roedd colled net ar Barc Busnes Castle Gate
- Gofynnwyd cwestiwn am gyngor ein hymgynghorwyr yn argymhell uchafswm terfyn hyd ar gyfer adneuo'n heb eu gwarantu o fewn sefydliadau bancio o 35 diwrnod a holwyd a oedd hyn yn rhy amharod i risg. Cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid bod diweddariadau rheolaidd gan ymgynghorwyr y trysorlys. Mae'r awdurdod yn cadw ei fuddsoddiadau'n hylifol ac yn gysylltiedig â'r sefyllfa fenthycia fewnol ac yn aros yn agos iawn at y gofyniad isafswm o £10 miliwn o fuddsoddiadau. Gan gyfeirio at y 35 diwrnod, mae'r awdurdod yn fodlon â'r cyngor proffesiynol ac ni fyddai'n dymuno gweithredu mewn modd a allai gael effaith andwyol ar lefelau hylifedd ar hyn o bryd.
- Roedd y Pennaeth Cyllid yn gallu cadarnhau bod yr awdurdod wedi cydymffurfio â pholisi'r trysorlys yn ystod 2022/23 ac mae'r dysgu o'r cyfnod hwn wedi bod

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 27ain Gorffennaf, 2023 at 2.00 pm

cael ei gymhwyso i strategaeth y trysorlys eleni. Gosodwyd dangosyddion a strategaeth rheoli'r Trysorlys ar ddechrau'r flwyddyn a chydymffurfiwyd â hwy'n llawn.

Yn unol ag argymhellion yr adroddiad, adolygodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ganlyniadau gweithgareddau rheoli'r trysorlys a'r perfformiad a gyflawnwyd yn 2022/23, fel rhan o'i gyfrifoldeb dirprwyedig i graffu ar bolisi, strategaeth a gweithgaredd y trysorlys ar ran y Cyngor.

5. Adroddiad y Trysorlys Chwarter 1 2023/24

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid Adroddiad Trysorlys Chwarter 1 2023/24. Yn dilyn hyn, gwahoddwyd Aelodau'r Pwyllgor i roi sylwadau a gofyn cwestiynau:

- Wrth ateb cwestiwn, cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid fod Cineworld yn nwylo'r gweinyddwyr yn y DU (a'r Unol Daleithiau) a bod yr awdurdod yn cyfathrebu'n rheolaidd â'r gweinyddwyr. Nid yw'r denantiaeth ym Mharc Hamdden Casnewydd wedi cael ei heffeithio hyd yma a does dim tystiolaeth bod diogelwch y taliadau rhent mewn perygl; mae'r taliadau ar amser. Mae'r cwmni'n anelu at ailstrwythuro ei weithrediadau i barhau'n gynaliadwy yn y DU.
- O ran y tenant angor ym Mharc Busnes Castle Gate, cadarnhawyd bod y cyfnod di-rent yn parhau.
- Nododd Aelod y newid sylweddol a'r sefyllfa buddsoddi net dros gyfnod o ddwy flynedd o £48 miliwn i ragamcan £15 miliwn.
- Gan gyfeirio at fenthyciadau LOBO ("Lender Option Borrower Option"), cadarnhawyd bod benthyciadau gyda thri banc. Roedd benthyciadau o'r fath ar gael yn y 2000au. Yn yr amgylchedd cyfraddau llog cynyddol presennol, efallai y bydd banciau am arfer eu dewis ar fenthyciadau ac mae'r awdurdod yn trafod gyda'i gynghorwyr trysorlys pe bai'r sefyllfa honno'n digwydd. Mae'r dyddiad dewis nesaf ym mis Awst felly mae'r opsiynau'n cael eu hystyried.
- Wrth ymateb i gwestiwn, dywedodd y Pennaeth Cyllid wrth y Pwyllgor fod cronfeydd y farchnad arian yn draddodiadol wedi darparu gwell enillion na blaendaliadau gyda Banc Lloegr ond nid yw hyn wedi bod yn wir yn ystod y cyfnod cyfnewidiol diweddar. Un flaenoriaeth yw osgoi risg ddiangen. Gallai buddsoddiadau fod yn agored i fechnïaeth (rheoliadau ar gyfer diogelwch y cronfeydd) os bydd sefydliad yn methu; nodwyd bod yr amlygiad i fechnïaeth wedi cynyddu ychydig a gwnaed adneuon gyda Banc Lloegr i leihau amlygiad mechnïaeth ac i gynyddu enillion buddsoddi yn ystod y cyfnod hwn o gyfraddau llog uchel.

Fel yr argymhellwyd, adolygodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio weithgareddau rheoli'r trysorlys a'r perfformiad a gyflawnwyd yn ystod chwarter cyntaf 2023/24 fel rhan o'i gyfrifoldeb dirprwyedig i graffu ar bolisi, strategaeth a gweithgaredd y trysorlys ar ran y Cyngor.

6. Datganiad Drafft o Gyfrifon 2022/23 - Cronfeydd Ymddiriedolaeth Elusennol

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid y Datganiad Drafft o Gyfrifon 2022/23 – Cronfeydd Ymddiriedolaeth Elusennol. Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, gwahoddwyd cwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor:

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 27ain Gorffennaf, 2023 at 2.00 pm

- Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhawyd bod Bwrdd Ymddiriedolwyr y cronfeydd ymddiriedolaeth elusennol briodol wedi cael y datganiad cyfrifon drafft ac y byddant yn eu hystyried yn eu cyfarfodydd arferol nesaf. Cadarnhawyd gan Aelod o'r Bwrdd fod Bwrdd Ymddiriedolaeth Gwaddol Ysgol Fferm Sir Fynwy wedi ystyried, ac yn fodlon â'r cyfrifon.
- Nododd Aelod y golled cyfalaf ar Gronfa'r Degwm ac Ymddiriedolaeth Gwaddol Ysgol Fferm Sir Fynwy oherwydd anweddolrwydd marchnadoedd y DU a gofynnodd a yw'r duedd honno'n debygol o barhau gan amlygu'r potensial am golledion mwy neu rai llai. Eglurodd y Pennaeth Cyllid mai pwrpas gwneud y buddsoddiadau hyn yw darparu cynnyrch incwm rheolaidd i gefnogi'r broses grant flynyddol. Mae'r enillion yn sylweddol uwch na chyn y buddsoddiadau cronfa gyfun ac yn darparu ffrwd incwm ddibynadwy ac yn cefnogi amcanion y cronfeydd ymddiriedolaeth. Fel buddsoddiadau tymor hir, derbynnir bod gwerthoedd cyfalaf yn codi ac yn gostwng, a nodwyd bod rhai buddsoddiadau wedi gwella'n sylweddol yn ddiweddar.
- Gofynnwyd cwestiwn am gyfrifoldeb y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, ac a oedd y Pwyllgor wedi gweld y strategaeth fuddsoddi ar gyfer y cyrff hyn. Dywedwyd bod strategaeth fuddsoddi ar wahân ar gyfer y cronfeydd hyn yn cyd-fynd yn agos â'r strategaeth fuddsoddi gyffredinol ar gyfer yr awdurdod cyfan. Eglurodd y Dirprwy Brif Weithredwr fod y Cabinet wedi cymeradwyo strategaethau buddsoddi'r gronfa ymddiriedolaeth 2023/24 (1 Mawrth 2023) ac yn y dyfodol gall y Pwyllgor hwn graffu ar adroddiad.
- Nodwyd mai cymharol ychydig o grantiau oedd wedi eu rhoi yn ystod y cyfnod ac eglurodd mai nifer cyfyngedig o geisiadau a dderbyniwyd, felly mae ymdrechion yn cael eu gwneud i ddarparu gwybodaeth ac annog ceisiadau gan fyfyrwyr.

Yn unol ag argymhellion yr adroddiad, adolygodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Ddatganiad Cyfrifon drafft 2022/23 ar gyfer y cyrff uchod a chafodd gyfle i roi sylwadau neu ddiwygiadau arfaethedig a fydd yn cael eu hystyried ochr yn ochr â'r broses archwilio allanol a chyn cyhoeddi'r cyfrifon terfynol.

7. Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft

Cyflwynodd y Prif Archwiliwr Mewnol y Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft. Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, gwahoddwyd cwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor:

- Gofynnodd Aelod pryd y byddai Pennaeth newydd y Gyfraith yn ymgymryd â'r swydd. Eglurodd y Prif Archwiliwr Mewnol fod cyfnod rhybudd o dri mis felly mae dyddiad dechrau yn cael ei drafod. Bydd y Gweithgor Llywodraethu ac uwch swyddogion, gan gynnwys y rhai yn y Tîm Cyfreithiol, yn monitro ac yn ymdrin â nhw yn ôl yr angen yn y cyfamser.
- Croesawodd Aelod y meysydd i'w gwella ac awgrymodd y gellid ystyried yn y blynyddoedd i ddod i'r pwyntiau effeithiolrwydd a oedd yn ymddangos fel camau gweithredu yn hytrach nag esbonio sut yr oeddent yn effeithiol. Awgrymwyd, lle mae gan rai ohonynt bwyntiau lluosog ond llai o enghreifftiau effeithiolrwydd, y gellid eu hadolygu. Cytunwyd ar hyn.
- Gofynnodd Aelod sut y gall y Pwyllgor fod yn hyderus bod yr asesiadau'n wir ac yn rhesymol. Eglurodd y Prif Archwiliwr Mewnol fod yr asesiadau yn yr

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 27ain Gorffennaf, 2023 at 2.00 pm

adroddiad wedi cael eu herio gan y Gweithgor Llywodraethu, ac fe'u heriwyd ar wahân gan aelodau'r Uwch Dîm Arwain a newidiwyd y meysydd effeithiolrwydd yn sylweddol yn dilyn y broses hon. Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr fod ystyried sawl safbwynt yn agwedd bwysig. Mae gwerth hefyd i'r Prif Archwiliwr Mewnol interim, fel swyddog newydd, edrych ar y ddogfen â "llygaid ffres" i ddilysu cywirdeb y wybodaeth a gyflwynir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

- Gan gyfeirio at y Cynllun Gweithredu, nododd Aelod fod y dyddiad i gynhyrchu a Strategaeth gaffael newydd cymdeithasol gyfrifol yw Mehefin 2023 a gofynnodd a oedd unrhyw ddiweddariad. Adroddodd y Dirprwy Brif Weithredwr fod yr eitem hon wedi cael ei chymeradwyo'n ddiweddar gan y Cabinet ac mae'r cynlluniau sy'n cefnogi'r strategaeth honno bellach yn dod i rym.
- Gofynnodd Aelod am allu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i nodi camymddwyn posibl a holwyd a oes mesurau a gwiriadau digonol ar waith i wneud hynny. Nodwyd na chofnodwyd unrhyw gamymddwyn a adroddwyd dros gyfnod y pwyllgor presennol. Holwyd a ellid rhoi prawf ar waith i ymarfer y broses er mwyn rhoi sicrwydd o effeithiolrwydd unrhyw ymateb. Adroddodd y Prif Archwiliwr Mewnol nad oedd unrhyw ymchwiliadau arbennig y llynedd felly dim i'w adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Y Prif Archwiliwr Mewnol i gysylltu â chydweithwyr AD i wirio a oes achosion i'w hadrodd. Roedd yr Aelod yn cofio rhywfaint o bryder am gwynion na chawsant eu derbyn.
- Gan awgrymu rhai mân welliannau, nid oedd Aelod yn cofio gweld adroddiad ar eithriadau i reolau gweithdrefnau contract ac awgrymodd y dylid cyflwyno adroddiadau'n nodi dim achos. Hefyd, ni fu cyfle i adolygu prosesau caffael. Awgrymwyd y gellid ystyried rhai sylwadau am feysydd i'w gwella ymhellach o Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w cynnwys yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol diwygiedig.
- Roedd y Pwyllgor yn fodlon ar effeithiolrwydd cyffredinol. Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr fod y graddfeydd a ddynodwyd yn wreiddiol wedi cael eu hisraddio i wella cywirdeb, yn seiliedig ar sawl safbwynt ac i hyrwyddo rhagoriaeth yn y dyfodol.

Fel yr argymhellwyd, cyfrannodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio at briodoldeb a chynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft (2022/23) ac ystyriodd yr adolygiad o effeithiolrwydd a'r asesiad a wnaed yn erbyn pob un o'r egwyddorion llywodraethu. Yn amodol ar rai mân newidiadau, cymeradwyodd y Pwyllgor y Datganiad Llywodraethu Blynyddol i'w gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon Drafft 2022/23.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Cynllun Gweithredu ddod yn ôl i'r Pwyllgor o bryd i'w gilydd fel y gall Aelodau ddeall y camau a gymerwyd cyn ystyried Datganiad Llywodraethu Blynyddol y flwyddyn nesaf.

8. Adroddiad Cynnydd Chwarterol Archwilio Mewnol

Cyflwynodd y Prif Archwiliwr Mewnol Adroddiad Cynnydd Chwarterol Archwilio Mewnol. Gwahoddwyd yr Aelodau i wneud sylwadau a gofyn cwestiynau:

- Mewn ymateb i gwestiwn, adroddodd y Prif Archwiliwr Mewnol mai'r gobaith oedd cael y traciwr yn fyw erbyn diwedd Chwarter 2.

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 27ain Gorffennaf, 2023 at 2.00 pm

- Wrth ymateb i gwestiwn am Hen Orsaf Tyndyrn, cadarnhaodd y Prif Archwiliwr Mewnol fod y Tîm yn dilyn canfyddiadau'r adroddiad archwilio gwreiddiol ynghylch consesiwn a chontract trydydd parti (cyn i'r gwasanaeth arlwyo gael ei ddychwelyd i'r ddarpariaeth fewnol). Mae'r Tîm yn edrych ar y trefniadau presennol ar gyfer arlwyo er mwyn rhoi sicrwydd bod y rheolaethau sydd ar waith yn effeithiol. Dywedodd Aelod ei fod wedi derbyn cwynion mai dim ond taliadau cardiau sydd ar gael a chytunodd y Prif Archwiliwr Mewnol i ymchwilio os yw taliadau arian parod yn cael eu cymryd.

Yn unol ag argymhellion yr adroddiad, nododd y Pwyllgor 1) y farn archwilio a gyhoeddwyd a 2) y cynnydd a wnaed gan yr Adran tuag at gyflawni Cynllun Archwilio Gweithredol 2023/24 a dangosyddion perfformiad yr Adran ar gam 3 mis y flwyddyn ariannol, sydd ar hyn o bryd ar y blaen i'r targed proffil.

9. Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2022/23

Cymeradwywyd Adroddiad Blynyddol 2022/23 y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w gyflwyno i'r Cyngor.

Gofynnodd y Cadeirydd fod dyddiad yn dod o ffynonellau yn yr Hydref i'r Pwyllgor gyfarfod i gynnal ymarfer hunanwerthuso i adolygu effeithiolrwydd y Pwyllgor ei hun.

10. Cynllun Gweithredol Archwilio Mewnol Terfynol 2023/24

Cyflwynwyd Cynllun Gweithredol Archwilio Mewnol Terfynol 2023/24 gan y Prif Archwiliwr Mewnol. Ar ôl cyflwyno'r adroddiad, gwahoddwyd cwestiynau gan yr Aelodau:

- Gan gytuno ar yr angen am adnoddau ychwanegol, gofynnodd Aelod pa mor gost-effeithiol ac effeithlon yw prynu adnoddau yn hytrach na phenodi staff Cyfwerth ag Amser Llawn. Holwyd a yw'r awdurdod yn defnyddio ymgynghorwyr llawrydd neu adnodd arall a rennir gan y sector cyhoeddus. Cadarnhaodd y Prif Archwiliwr Mewnol nad yw'n gost effeithiol prynu mewn adnoddau; mae'r gyfradd ddyddiol yn uchel oherwydd diffyg argaeledd yn y farchnad. Bydd penodiad diweddar uwch archwilydd yn cyfyngu ar yr angen i gaffael adnoddau allanol. Eglurwyd y gellir caffael adnodd allanol o'r fath o gydweithio rhanbarthol neu gan gwmnïau archwilio mewnol yn yr ardal. Yn y naill achos neu'r llall, mae argaeledd a'r gyllideb sydd ar gael yn ffactorau allweddol.
- Holodd Aelod pam y nodwyd bod Gwasanaethau Democrataidd a Chofrestru Etholiadol yn risg uchel. Eglurodd y Prif Archwiliwr Mewnol fod Cofrestru Etholiadol yn cael ei ystyried yn risg uchel oherwydd nifer y newidiadau deddfwriaethol ar hyn o bryd. O ran Gwasanaethau Democrataidd, mae hyn yn gysylltiedig â llywodraethu a bydd yr adolygiad yn bwydo i mewn i'r Gweithgor Llywodraethu i lywio'r datganiad llywodraethu blynyddol.
- Nododd Aelod fod yna ychydig o feysydd risg uchel nad ydynt erioed wedi cael eu hadolygu yn y cynllun. Holwyd beth sy'n sbarduno cynnwys gwasanaethau os nad oeddent wedi cael eu hadolygu o'r blaen. Eglurwyd ei bod yn bosibl eu bod wedi cael eu harchwilio o'r blaen o dan enw gwahanol.

Fel yn argymhellion yr adroddiad, bu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn adolygu ac yn cymeradwyo Cynllun Gweithredol Archwilio Mewnol ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24.

11. Cynllun Archwilio Blynyddol 2022/23

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 27ain Gorffennaf, 2023 at 2.00 pm

Cyflwynodd Swyddog Archwilio Cymru'r adroddiad ac yn dilyn y cyflwyniad, gwahoddwyd yr Aelodau i ofyn cwestiynau. Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

12. Blaengynllun Gwaith

Nodwyd y Flaenraglen Waith. Mae'r ychwanegiadau canlynol wedi'u gwneud:

Medi

- Adroddiad cydweithrediadau a phartneriaethau allweddol
- Diweddariad llafar ar Gapasiti'r Tîm Cyllid

Tachwedd

- Strategaeth Pobl a Strategaeth Asedau

13. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol fel cofnod cywir.

14. I gadarnhau dyddiad y cyfarfod nesaf fel yr 20fed Medi 2023

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gywir.

Gorffennodd y cyfarfod am 4.08 pm